PRESS RELEASE

DATGANIAD I'R WASG

Neges ddwyieithog yw hon / This is a bilingual message

Press Release

13 January 2017

For Immediate Release

Public backing for Radyr Primary School expansion

Consultation results have shown public support for proposals to increase the size of Radyr Primary school. Included in a report being considered by the City of Cardiff Council's Cabinet on Thursday, the consultation results show that the majority of people back the expansion proposals put forward in September in response to increasing local demand for places at the school. At the moment Radyr primary has a published capacity of 45 pupils in each year group, from Reception class to Year 6. But since 2012 the number of pupils starting there each September has exceeded that published figure, with the school and local authority having

to use a combination of existing and temporary accommodation to cater for the extra numbers. The proposals being considered by Cabinet would provide the school with a long-term solution, putting in place permanent accommodation for up-to 420 pupils, 60 pupils in each year group, from September 2017. Cabinet Member for Education, Cllr Sarah Merry said: "I welcome the results of the public consultation which clearly support the proposed expansion of Radyr Primary School. The projected pupil numbers in the local area show that now is the right time to introduce a long-term solution to provide additional places at the school and this report brings the expansion a step closer. "Providing better education and skills for all is one of the council's stated priorities, and delivering the right facilities for all of the city's children and young people is a key part in achieving this." The report being considered by Cabinet recommends that a statutory notice is published to increase the capacity of Radyr Primary School to admit up to 60 pupils from September 2017. Following publication of the notice there would be a minimum period of 28 days to allow for any objections to be made and these would be reported back to Cabinet.

The City of Cardiff Council's Cabinet will meet on Thursday 19th January to discuss the recommendations. The full Cabinet report and consultation results are available from the council's website atwww.cardiff.gov.uk/meetings. **Notes to Editor** The published overall capacity of Radyr Primary School was set at 315 places in 2008 (45 places for each year group from Reception class to Year 6). As a temporary measure to meet demand, additional places were provided using a combination of existing and temporary accommodation at Radyr Primary School in September 2012, September 2013, September 2014, September 2015 and September 2016. Academic Year Number of pupils admitted to Radyr Primary School 2012/13 60 2013/14 60 2014/15 56 2015/16 60 2016/17 60 Public

Consultation ran from 10th October 2016 to 21st November 2016 **Cymraeg Cefnogaeth gyhoeddus i ehangu Ysgol Gynradd Radur** Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi dangos cefnogaeth gyhoeddus i'r cynigion i ehangu Ysgol Gynradd Radur. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad, sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad a gaiff ei ystyried gan Gabinet Cyngor Dinas Caerdydd ddydd Iau, yn cefnogi'r cynigion ehangu a gyflwynwyd ym mis Medi mewn ymateb i'r galw lleol cynyddol am leoedd yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Gynradd Radur gapasiti o 45 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn, o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6. Ond ers 2012 mae nifer y disgyblion sydd wedi dechrau yno bob mis Medi wedi bod yn fwy na'r nifer a gyhoeddwyd, gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol yn gorfod defnyddio cyfuniad o lety presennol a llety dros dro i ddarparu ar gyfer y niferoedd ychwanegol. Byddai'r cynigion sy'n cael eu hystyried gan y Cabinet yn rhoi ateb hirdymor i'r ysgol. Bydd llety parhaol mewn lle ar gyfer hyd at 420 o ddisgyblion, 60 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn, o fis Medi 2017. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Cynghorydd Sarah Merry: "Rwy'n croesawu canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n cefnogi'r cynnig i ehangu Ysgol Gynradd Radur. Mae nifer amcangyfrifedig y disgyblion yn yr ardal leol yn dangos mai nawr yw'r amser i gyflwyno datrysiad parhaol, hirdymor i gynnig lleoedd ychwanegol yn yr ysgol, ac mae'r adroddiad hwn yn dod â'r ehangiad gam yn nes.

"Mae rhoi gwell addysg a sgiliau i bawb yn flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae cynnig adnoddau modern fel y rhain ar gyfer holl blant a phobl ifanc y ddinas yn rhan allweddol o gyflawni hyn." Mae'r adroddiad sy'n cael ei ystyried gan y Cabinet yn argymell cyhoeddi hysbysiad statudol i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Radur i dderbyn hyd at 60 o ddisgyblion o fis Medi 2017. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad, byddai cyfnod o 28 diwrnod o leiaf i wneud unrhyw wrthwynebiadau, a byddai'r rhain yn cael eu cyfleu

i'r Cabinet. Bydd Cabinet Cyngor Dinas Caerdydd yn cwrdd ddydd Iau 19 Ionawr i drafod yr argymhellion. Mae'r adroddiad Cabinet llawn a chanlyniadau'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor ynwww.caerdydd.gov.uk/cyfarfodydd **Gair i'r Golygydd** Capasiti cyffredinol cyhoeddedig Ysgol Gynradd Radur yn 2008 oedd 315 o leoedd (45 lle ar gyfer pob grŵp blwyddyn o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6). Fel mesur dros dro i fodloni'r galw, cafodd lleoedd ychwanegol eu cynnig gan ddefnyddio cyfuniad o lety presennol a llety dros dro yn Ysgol Gynradd Radur ym Medi 2012, Medi 2013, Medi 2014, Medi 2015 a Medi 2016. Blwyddyn Academaidd Nifer y disgyblion a dderbyniwyd i Ysgol Gynradd Radur 2012/13 60 2013/14 60 2014/15 56 2015/16 60 2016/17 60 Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus rhwng 10 Hydref 2016 a 21 Tachwedd 2016

Am mwy o wybodaeth, cysylltwch â/ For further information please contact: Jeremy Rhys, Swyddog Cyfathrebu/Communication Officer Tel: 029 2087 2639 Ebost/Email: Jeremy.rhys@cardiff.gov.uk

www.newyddioncaerdydd.co.uk
www.cardiffnewsroom.co.uk

[#RL-13510:636199234758672699#]